CYFRES A6

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 11: 27-32
12:1-9

ADNODAU ALLWEDDOL
Actau 7: 2-4

Astudiaeth 1 Abraham – Ei Alwad

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Joshua 24: 2 a 3 Hebreaid 11: 8-10

Er bod Abraham yn byw filoedd o flynyddoedd yn ôl, mae'r ffordd yr oedd yn ymddiried yn Nuw wedi bod yn esiampl i Gristnogion am lawer o ganrifoedd. Pan ddarllenwn ni amdano gyntaf yn y Beibl, ei enw yw Abram.

C **Enwch y bobl oedd yn perthyn i Abram.** 3

1. Ei dad ____ 2. Ei wraig ____ 3. Ei nai ____

Roedd Abram a'i deulu yn byw ym Mesopotamia.

C **Ar y map marciwch:**

1. Y ddinas y daethon nhw ohoni.
2. Y dref y cyrhaeddon nhw iddi.
3. Y wlad yr oedden nhw'n mynd iddi.



3

Doedd teithio ddim yn rhwydd yn y dyddiau hynny. Byddai mynd ar daith o gannoedd o filltiroedd yn orchest fawr iawn. Byddai'n rhaid symud llawer iawn o bobl, gweision, rhai i ofalu am y gwartheg a'r gwartheg eu hunain. Cyn cychwyn ar y fath siwrnai, byddai'n rhaid i chi fod yn siwr eich bod yn gwneud y peth iawn!

C **Pwy ymddangosodd i Abram? (Darllenwch yr Adnodau Allweddol)**

C **Beth a ddywedodd wrtho? (Genesis 12: 1)**

C **Pam yr aeth ef? (Hebreaid 11: 8)** 3

Mae'n ymddangos nad oedd Abram yn gwbl ufudd. Yn lle gadael ei deulu'n gyfangwbi, fe aeth â'r rhan fwyaf ohonyn nhw gydag ef. Ac yn lle mynd yn syth i'r wlad a orchmynnodd Duw iddo, fe arhosodd yn Haran tan i'w dad farw. Mae Duw am i ni fod yn gwbl ufudd. Os yw Duw'n gorchymyn, rhaid i ni wneud! Os yw Duw'n ein hanfon, rhaid i ni fynd! Os nad yw Cristnogion yn ufudd i Air Duw (Y Beibl), allan nhw ddim derbyn y fendith y mae Duw am ei rhoi iddyn nhw.



Cafodd Abram ei annog i fod yn ufudd i orchmynion Duw oherwydd yr addewidion a wnaeth Duw iddo. Sylwch pa mor aml y mae Duw'n dweud wrtho, "Fe wna i ....."

C **Pa bum peth y dywedodd Duw y byddai'n eu gwneud? (12: 2-3)**

5

Doedd Abram ddim yn gwybod pa ffordd i fynd (darllenwch Hebreaid 11: 8), ond roedd yn ymddiried yn Nuw i'w arwain. Dydyn ni ddim yn gwybod manylion ei daith hir, ond rydyn ni'n gwybod i Abram a'i deulu gyrraedd Canaan yn y diwedd.

C **Gwnewch restr o bawb a aeth gydag Abram i Ganaan.**

3

Efallai bod Abram yn siomedig pan gyrhaeddodd Ganaan. Roedd pobl yn byw yno'n barod, ond mae'n siwr i'r addewid pwysig a gafodd gan Dduw ei galonogi'n fawr (darllenwch adnod 7).

C **Sut y gwnaeth Abram ymateb i'r addewid newydd hwn gan Dduw?**

2

Mae'r digwyddiad hwn yn hanes Abram yn ganlyniad cwrdd â Duw a Duw yn ei alw

C **Darllenwch yr Adnodau Allweddol, ac ysgrifennu'n UNION beth ddywedodd Duw wrth Abram am ei wneud.**

1

Pan fydd Duw yn ein galw ni, fel y galwodd Abram, rhaid i ni ymddiried ynddo, ei ddilyn a bod yn ufudd iddo. Mewn gwirionedd, fe ddylen ni roi ein bywydau yn gyfangwbl iddo.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 13:1-18
14: 1-16

ADNOD ALLWEDDOL
Josua 24: 15

Astudiaeth 2 Abraham – Ei Ddewis

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Mathew 6: 33 Marc 8: 36

Rydyn ni'n gwneud dewisiadau o hyd - pa bynciau i'w hastudio yn yr ysgol, pa yrfa i anelu ati, pa chwaraeon i'w chwarae a phwy i'w cymryd yn ffrindiau. Rydyn ni hefyd yn gwneud dewisiadau ynglŷn â Duw - ai dilyn yr Arglwydd neu fynd ein ffordd ein hunain. Yn yr astudiaeth hon, fe ddysgwn sut i wneud y dewis iawn mewn bywyd.

C Darllenwch Genesis 13: 1-4 yn ofalus a gwneud y Croesair i ddysgu am gefndir yr astudiaeth hon.



I Lawr
1. O ble y daeth Abram?
2. I ble y daeth Abram?
4. Roedd Abram yng Nghanaan am fod Duw wedi ei .....
6. Beth adeiladodd Abram yn 2 i lawr?

Ar Draws
3. Mewn beth yr oedd Abram yn byw?
4. Roedd gan Abram lawer o _ _ _ _ _ ac aur.
5. Pwy oedd gydag Abram?
8. Pwy arall oedd gydag Abram?

4

C Eglurwch yn eich geiriau eich hunan pam na allai Abram a Lot fyw gyda'i gilydd.

2

Rhoddodd Abram y cyfle i Lot wneud y dewis cyntaf.

C Ysgrifennwch beth yr awgrymodd Abram wrth Lot.

1

C Tanlinellwch y geiriau sy'n disgrifio'r ardal a ddewisodd Lot.

Wedi'i dyfrhau'n dda / yn y gorllewin / Gwastadedd Iorddonen / anialwch / Dyffryn Nil / agos at Sodom a Gomorra / yn agos at Jericho.

2

Gwnaeth Lot dri chamgymeriad wrth ddewis:
1. Ni ofynnodd i Dduw pa ffordd y dylai fynd.
2. Ni roddodd y dewis cyntaf i'w ewythr Abram, er mai hynny fyddai'r peth cwrtais i'w wneud gan fod Abram yn hŷn nag ef, ac wedi gwneud cymaint iddo.
3. Dewisodd fynd i fyw yn agos at ddinas lle'r oedd y bobl yn ddrwg iawn.

Rhaid i ni bob amser ofyn i Dduw beth i'w wneud pan fydd gennym ddewis pwysig o'n blaen. Rhaid i ni beidio byth â gwneud dewis sy'n ein rhoi mewn sefyllfa lle y gallen ni gael ein temtio i bechu.

Fe arhosodd Abram yng Nghanaan.

C **Ar ôl i Lot adael, gwnaeth Duw addewid arall i Abram ynglŷn â'r tir. Ysgrifennwch yr addewid.** 1

Am fod Abram wedi bod yn ufudd i Dduw, gwnaeth Duw ragor o addewidion iddo ynglŷn â'i ddisgynyddion.

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir.** 4

Aeth Lot i'r dwyrain ond i'r gorllewin yr oedd tir Abram. .....

Byddai teulu Abram fel coed yn y goedwig. .....

Câi Abram fynd i ble bynnag y dymunai yn y tir. .....

Byddai Duw'n rhoi'r tir hwn i gyd i Abram. .....

Roedd Abram wrth ei fodd gydag addewidion Duw.

C **Beth wnaeth Abram i ddiolch i Dduw?** 1

Tra oedd Abram yn derbyn bendith Duw, roedd Lot wedi ei ddal mewn brwydr. (14:1 a 2)

C **Tynnwch linellau i gysylltu'r rhifau cywir.** 1

	5		3
Roedd	4	brenin yn ymladd yn erbyn	7
	4		5

Mae'n edrych yn debyg bod Lot wedi symud i ddinas ddrwg Sodom erbyn hyn.

C **Ysgrifennwch frawddeg i egluro beth oedd wedi digwydd iddo yn y frwydr. (14: 12)** 1

C **Faint o ddynion aeth Abram gydag ef? Pa bryd yr ymosodon nhw?** 2

Felly, achubodd Abram Lot a'i eiddo. Nid oedd Lot wedi gwneud y dewis iawn, ac roedd wedi mynd i'r cyfeiriad anghywir. Dewrder ei ewythr yn unig a sicrhaodd ei ryddid iddo.

Mae'n hawdd i ni wneud y dewisiadau anghywir yn yr ysgol, yn y gwaith, gyda ffrindiau neu hyd yn oed gartref. Ydych chi'n barod i wneud y dewis a wnaeth Josua yn yr Adnod Allweddol?

C **Chwiliwch am yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch hi.** 1

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 15:1-7,
17: 1-19 18: 1-15

ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 18: 14

Astudiaeth 3 Abraham – Ei Hyder

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Rhufeiniaid 4: 16-22 Hebreaid 11 : 11 a 12

Ydych chi'n credu popeth y mae pobl yn ei ddweud wrthych chi? Mae'n siwr ei bod yn dibynnu pwy sy'n dweud. Roedd Abram yn dysgu bod beth bynnag yr oedd Duw yn ei addo yn dod yn wir.

Roedd gan Abram broblem. Roedd Duw wedi addo teulu iddo, ond hyd yma, doedd ganddo ddim plant.

C Darllenwch Genesis 15 adnodau 1 i 7 yn ofalus a llanwch y bylchau â geiriau o'ch dewis chi i grynhoi beth a ddywedodd Duw wrtho.

Daeth _ _ _ _ yr Arglwydd at Abram (adnodau 1 a 4). "Mab, o'th gnawd dy hunan fydd dy _ _ _ _ _ __ (a. 4). Edrych i fyny i'r _ _ _ _ a rhifa'r _ _ _, felly y bydd dy __ _ _ _ _ _ _ __ _ _ _ " (a. 5). _ _ _ _ _ __ Abram yn yr Arglwydd a chafodd hynny ei gyfrif yn _ _ _ _ _ _ _ _ _ iddo (a. 6). Dywedodd Duw hefyd "Myfi yw'r Arglwydd a __ _ _ __ â thi o dir _ _ y Caldeaid i roi'r tir hwn i ti" (a. 7).

4

C Mae Enwau a Theitlau yn bwysig iawn yn y Beibl. Darllenwch 17:1-19 ac atebwch y cwestiynau.

Beth oedd yr Arglwydd yn ei alw ei hun?

Beth oedd enw newydd Abram?

Beth yw ystyr yr enw newydd?

Beth oedd enw'i wraig?

Beth oedd enw newydd ei wraig? (Ystyr ei henw hi yw 'tywysoges' am y byddai hi'n fam i lawer o genhedloedd a brenhinoedd).

5

Beth oedd enw'i fab i fod?

1

Roedd hwn yn addewid mawr iawn! Dyma newyddion syfrdanol i Abraham!

C Beth wnaeth Abraham? (Darllenwch 17:17)

C Beth a ddywedodd Abraham wrtho'i hun?

1

Yn awr, rhoddodd Duw ddatguddiad arbennig iawn ohono'i hun i Abraham. Daeth i ymweld ag ef!

C **Darllenwch Genesis 18: 1-15. Ysgrifennwch atebion i'r cliwiau a ganlyn yn y bylchau ac yna rhowch gylch amdanyn nhw yn y Pos Geiriau.**

Roedd Abraham yn eistedd wrth ddrws ei babell yng ___ _ _ _ _ y dydd.
Daeth _ _ _ dyn i'w weld.
Gwahoddodd Abraham nhw i _ _ _ _.
Dywedodd wrth Sara am baratoi _ _ _ _ _ _ _ _ _.
Brysiodd y _ _ _ _ i baratoi llo tyner.
Rhoddodd _ _ _ __ iddynt i'w yfed.
Safodd o dan _ _ _ _ _ _.
Roedd Sara yn y _ _ _ _ __.

A	R	E	N	E	D	E	O	G
C	NG	F	A	CH	O	R	W	R
R	W	R	D	A	R	I	LL	E
T	R	I	R	TH	E	B	E	T
A	E	E	F	E	G	E	B	A
S	S	O	R	A	W	S	A	G
O	R	C	E	L	A	R	B	O
U	A	N	N	E	S	I	E	T

4

Yr Arglwydd oedd un o'r ymwelwyr. Roedd hwn yn un o'r achlysuron gwyrthiol hynny pan ddaeth Duw i lawr i'r ddaear am gyfnod byr.

C **Beth oedd y geiriau cyntaf y gwyddon ni iddo'u dweud? (Darllenwch adnod 10)**

2

C **Beth oedd ymateb Sara i'r newyddion?**

2

C **Ysgrifennwch y rhan o'r Adnod Allweddol sy'n ein hatgoffa nad oes dim yn amhosibl i Dduw.**

1

Ddylen ni ddim ofni ymddiried yn Nuw - Yn gyntaf am gael ein hachub oddi wrth ein pechodau, ac yna fel ei blant, am holl ofynion bywyd bob dydd.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 22: 1-19

ADNOD
ALLWEDDOL
Hebreaid 11: 17-19

Astudiaeth 4 Abraham - Yr Her

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Rhufeiniaid 8: 32; Iago 2: 20-24

Mae Abraham yn wynebu prawf mwyaf ei fywyd. Roedd wedi disgwyl mor hir i Isaac gael ei eni, ac yn awr fe ddaeth ei fab yn ganolbwynt prawf Duw arno.

C Llanwch y bylchau yn y swigen eiriau i weld beth roedd Duw yn gofyn i Abraham ei wneud.

"Cymer dy ....., dy unig .....,
yr wyt yn ei ....., a dos i wlad ..... .
Offryma ef yno yn ..... ar y ..... y byddaf yn ei ..... i ti.

3

Roedd aberthu plant yn gyffredin yr adeg honno ymhlith y cenhedloedd paganaidd oedd heb adnabod y gwir Dduw. Mae'n rhaid bod Abraham yn methu â deall pam yr oedd Duw'n gofyn iddo wneud hyn. Pe bai ef yn aberthu Isaac, sut allai addewidion Duw ddod yn wir?

C Rhowch y digwyddiadau isod yn eu trefn gywir trwy eu rhifo o 1 i 5. (adn. 3 a 4)

☐ Cychwynnodd am y lle yr oedd Duw wedi dweud wrtho am fynd iddo.
☐ Ar y trydydd diwrnod fe welodd y lle o bell.
☐ Rhoddodd Abraham gyfrwy ar ei asyn.
☐ Torrodd ddigon o goed ar gyfer y poethoffrwm.
☐ Aeth â dau was gydag ef yn ogystal ag Isaac.

5

C Cwblhewch y Grid Geiriau i ganfod beth a ddigwyddodd nesaf.

1. Dywedodd Abraham ei fod ef ac Isaac yn mynd i _ __ _ _ _.
2. Holodd Isaac _ _ _ roedd yr oen.
3. Daeth Abraham ac Isaac i'r __ _ yr oedd Duw wedi dweud.
4. Dywedodd Abraham y byddai Duw yn _ _ _ _ _ _ _ oen.
5. Roedd Abraham yn mynd i offrymu _ _ _ __offrwm.
6. Roedd Abraham yn fodlon rhoi ei _ _ _ _ fab i Dduw.



Edrychwch ar draws y Grid Geiriau ac ysgrifennwch beth yr oedd Abraham yn barod i'w wneud i Isaac. ..... .

5

C **Beth a ddywedodd angel yr Arglwydd wrth Abraham ar ôl iddo alw arno wrth ei enw?** (a. 12)



1

Roedd Abraham yn barod i roi popeth i Dduw. Roedd yn caru Duw gymaint nes ei fod yn barod hyd yn oed i aberthu ei fab iddo.

C **Beth a gynigiodd Abraham yn lle Isaac?**

1

C **Beth oedd Abraham yn ei gredu? (Hebreaid 11 :19)**

2

C **Pa enw a roddodd ar y lle?**

1

Pan siaradodd angel Duw ag Abraham yr ail waith, fe wnaeth yn gwbl glir iddo y byddai'n derbyn bendith fawr, am ei fod wedi ufuddhau i orchymyn Duw.

Mae'r digwyddiad hwn ym mywyd Abraham yn ddarlun o'r hyn a ddigwyddodd pan roddodd Duw ei Fab, yr Arglwydd Iesu, i farw ar y groes. Nid oedd neb i gymryd ei le ef, felly fe fu farw dros bawb.

C **Ysgrifennwch Rhufeiniaid 8: 32 sy'n egluro hyn**

2

Beth ydych chi wedi'i wneud ynglŷn ag aberth fawr Duw drosoch chi?

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120